**Rhif: WG26946**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

# Llunio Cod Ymddygiad wrth Deithio newydd i Gymru gyfan

Dyddiad cyhoeddi: 18 Tachwedd 2015
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 10 Chwefror 2016

OGL © Hawlfraint y Goron 2015

# Llunio Cod Ymddygiad wrth Deithio newydd i Gymru gyfan

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Cyflwynodd Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 y Cod Ymddygiad wrth Deithio statudol i Gymru gyfan (‘y Cod Ymddygiad wrth Deithio’) sydd wedi bod yn weithredol ers Ionawr 2010. Mae’r Cod Ymddygiad wrth Deithio yn ddull allweddol o sicrhau, cyn belled ag y bo’n ymarferol, diogelwch dysgwyr o dan 19 oed ar y daith rhwng y cartref a’r ysgol (a rhwng ysgolion), beth bynnag fo’r ffordd o deithio. Mae’r Cod Ymddygiad wrth Deithio yn pennu safonau ymddygiad y mae’n rhaid i ddysgwyr gadw atynt er diogelwch, ond mae hefyd yn nodi eu hawl i gael taith ddiogel.<br><br>Mae gan Weinidogion Cymru ddyletswydd o dan adran 12 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 i lunio a chyhoeddi Cod Ymddygiad wrth Deithio ac i’w adolygu o bryd i’w gilydd. Mae Adran 12(6) o’r mesur yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion ymgynghori â phobl y maent yn eu hystyried sy’n addas cyn diwygio’r Cod Ymddygiad wrth Deithio.<br><br>Pwrpas yr ymgynghoriad yw ceisio barn rhanddeiliaid ar lunio Cod Ymddygiad wrth Deithio; ar ddatblygu fframwaith newydd sy’n rheoli teithio diogel rhwng y cartref a’r ysgol; a chynnwys y fframwaith hwnnw yng nghanllaw statudol y Cod Ymddygiad wrth Deithio. |
| **Sut i ymateb** | Dylid e-bostio/postio ymatebion i’r ymgynghoriad hwn i’r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **10 Chwefror 2016** fan hwyraf. |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o’r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**<br>Mae fersiwn Hawdd ei Deall o’r ddogfen ymgynghori ar gael.<br><br>Mae’r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/ymgynghoriadau |

| | |
|---|---|
| **Manylion cyswllt** | Am ragor o wybodaeth:<br><br>John Griffiths<br>Y Tîm Teithio gan Ddysgwyr<br>Yr Is-adran Trafnidiaeth Gyhoeddus<br>Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br><br>e-bost: John.Griffiths3@wales.gsi.gov.uk<br><br>Ffôn: 029 2080 1010 |
| **Diogelu data** | Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.<br><br>Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.<br><br>Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu inni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig inni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig |

dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn inni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

## Beth yw'r prif faterion?

Yn ystod 2014/2015, casglodd Llywodraeth Cymru dystiolaeth ansoddol gan amrywiol randdeiliaid sy'n dangos nad yw'r Cod Ymddygiad wrth Deithio yn effeithiol:

- nid yw'r drefn sancsiynau yn ddigon cadarn i ddelio ag ymddygiad anghymdeithasol difrifol
- nid yw'r Cod wedi'i gysylltu â'r codau ymddygiad mewn ysgolion
- nid yw awdurdodau lleol ac ysgolion yn cydweithio i weithredu'r Cod
- mae amrywiadau amlwg o ran cofnodi digwyddiadau gan awdurdodau lleol a chwmnïau trafnidiaeth

Roedd dysgwyr, yn arbennig, yn pryderu ynghylch cynnwys a sut y cyflwynwyd y Cod Ymddygiad wrth Deithio (er enghraifft, 'gormod o reolau'); a materion fel arolygu a gorfodi. Nid oedd y mwyafrif o ddysgwyr yn ymwybodol o'r Cod Ymddygiad wrth Deithio.

### Ble ydym ar hyn o bryd? Y dystiolaeth ar gyfer newid

Ym mis Ionawr 2015 comisiynodd Llywodraeth Cymru fenter gymdeithasol, Dynamix, i gynnal gweithdai ymgynghori gyda dysgwyr rhwng 12-18 ledled Cymru i holi eu barn am ddatblygu y Cod Ymddygiad wrth Deithio.

Yn ystod yr ymgynghoriad cafwyd tystiolaeth gan y dysgwyr ar amryw o themâu gwahanol fel a nodir isod.

**Bwlio:** Mae'r dysgwyr yn bryderus ynghylch faint o fwlio sydd ar drafnidiaeth ysgol. Dywedodd y dysgwyr nad oedd y negeseuon gwrth-fwlio o fewn y Cod Ymddygiad wrth Deithio yn ddigon cadarn. Dywedodd y dysgwyr hefyd y dylai rhieni fod yn gyfrifol am ymddygiad eu plant.

**Ar y bws:** Nid yw dysgwyr yn cael bwyta nac yfed ar fysiau ysgol a hoffent i'r bysiau fod yn brofiad diogel, cyfforddus a phositif. Mae dysgwyr hefyd yn credu y dylai gyrwyr bysiau gael eu hyfforddi fel bod eu safonau ymddygiad hwy yn cael ei nodi mor glir â safonau ymddygiad y dysgwyr.

**Diffyg fframwaith cynorthwyol i'r Cod Ymddygiad wrth Deithio:** Mae dysgwyr yn teimlo bod y Cod Ymddygiad wrth Deithio yn aneffeithiol fel dull ohono ei hun, ac nad oes fframwaith cynorthwyol o strwythurau a dulliau i helpu i fynd i'r afael ag ymddygiad gwael, gan gynnwys bwlio.

**Gorfodi/Goruchwylio:** Nid oes unrhyw ddarpariaeth gyffredinol o swyddogion ar fysiau. O ganlyniad nid oes neb i arolygu ar deithiau bws; atal bwlio; helpu'r rhai sy'n cael eu bwlio; cadw cofnod o ymddygiad; ac adrodd yn ôl ar unrhyw ymddygiad gwael i benaethiaid, penaethiaid blwyddyn neu gynghorau ysgol. Nid oes chwaith ddarpariaeth teledu cylch cyfyng ymhobman (er ei fod mor ddefnyddiol i gofnodi tystiolaeth o ddigwyddiadau).

**Gwobrwyo a Sancsiynau:** Ar hyn o bryd, nid oes system i wobrwyo ymddygiad da (fel dewis sedd neu gwobrwyon ariannol/bwyd). Nid oes cysylltiad clir chwaith rhwng y Cod Ymddygiad wrth Deithio a chodau ymddygiad unigol gan ysgolion, sy'n golygu bod categorïau o ymddygiad, a fyddai, yn ddelfrydol, wedi cael eu cosbi drwy sancsiynau o fewn y cod ymddygiad ysgol, yn cael eu trafod o dan y Cod Ymddygiad wrth Deithio, ac i'r gwrthwyneb.

## Beth sy'n cael ei gynnig?

Dyma gynigion Llywodraeth Cymru:

### Bwlio

- I gynnwys negeseuon gwrth-fwlio mwy cadarn o fewn y Cod Ymddygiad wrth Deithio, gan gynnwys y canllawiau statudol diwygiedig ar gyfer y Cod Ymddygiad wrth Deithio
- Cysylltu'r Cod Ymddygiad wrth Deithio, gan gynnwys y canllaw statudol cysylltiedig, gydag agenda gwrth-fwlio Parchu Eraill Llywodraeth Cymru, gan gynnwys sancsiynau gwrth-fwlio o fewn codau ymddygiad ysgolion
- Pwysleisio dyletswyddau statudol awdurdodau lleol ac ysgolion o ran bwlio o fewn canllaw statudol y Cod Ymddygiad wrth Deithio, yn enwedig cofnodi ac adrodd yn ôl ar achosion o fwlio, gan gynnwys y disgwyliadau sydd ar gwmnïau cludo i adrodd yn ôl ar achosion o fwlio.

### Ar y bws

- Annog cwmnïau bysiau i ddarparu, cyn belled ag y bo'n ymarferol, amgylchedd ddiogel, gyfforddus a phositif, ac argymell bod dysgwyr yn cael bwyta ac yfed ar fysiau ar yr amod eu bod yn casglu unrhyw sbwriel.

### Fframwaith Cynorthwyol ar gyfer y Cod Ymddygiad wrth Deithio

- Darparu fframwaith gynorthwyol i'r Cod Ymddygiad wrth Deithio drwy
  - Drefnu Contractau Ymddygiad wrth Deithio rhwng dysgwyr, rhieni, awdurdodau lleol a chwmnïau teithio i gadarnhau y synnwyr o gyfrifoldeb ar y cyd ymysg rhanddeiliaid i sicrhau ymddygiad da ar y daith o'r cartref i'r ysgol
  - Defnyddio swyddogion bws i arolygu ar deithiau bws (er enghraifft dysgwyr o Flynyddoedd 11, 12 neu 13)
  - Darparu system adrodd yn ôl glir i ganiatáu i rieni, gofalwyr a dysgwyr adrodd yn ôl ar ddigwyddiadau o ymddygiad drwg/gwrth-gymdeithasol
  - Trefnu hyfforddiant berthnasol i yrwyr bysiau ysgol i sicrhau y cynhelir safonau uchel o ymddygiad, a
  - Chysylltu'r Cod Ymddygiad wrth Deithio â strategaethau/mentrau eraill i helpu awdurdodau lleol, ysgolion a chwmnïau trafnidiaeth benderfynu pa ddulliau i'w defnyddio er mwyn mynd i'r afael â gwahanol gategorïau ymddygiad – er enghraifft

    • Codau ymddygiad mewn ysgolion y gellir eu defnyddio i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrth-gymdeithasol

- Agenda gwrth-fwlio Parchu Eraill (sy'n cynnwys elfennau megis gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion i helpu'r rhai hynny sydd yn bwlio neu sydd ag ymddygiad peryglus; cyfryngu; gwasanaethau cynorthwyo cyfoedion ble y mae dysgwyr sy'n gwirfoddoli yn darparu gwasanaethau gwrth-fwlio; blychau pryderon fel y gall y dysgwyr nodi eu pryderon; a'r model adferol sy'n ceisio sicrhau nad yw achosion o fwlio yn digwydd dro ar ôl tro, drwy ddod â'r rhai sy'n bwlio a'r rhai sy'n cael eu bwlio at ei gilydd mewn amgylchedd ddiogel i drafod yr hyn sydd wedi digwydd)
- Y Fframwaith Troseddau Casineb a gynlluniwyd i fynd i'r afael â throseddau yn erbyn y nodweddion a ddiogelir fel a ddiffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (oedran; anabledd; hil; crefydd; cyfeiriadedd rhywiol; ac ailbennu rhywedd). Mae'r Fframwaith Troseddau Casineb yn cynnwys ffynonellau o gymorth a chyngor i ddysgwyr, fel yr Heddlu/Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig; Canolfan Adrodd am Droseddau Casineb; Cymorth i Ddioddefwyr (y ganolfan gofnodi genedlaethol ar gyfer trydydd parti); MEIC (gwasanaeth cynghori ac eirioli cenedlaethol); a Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru ar gyfer Troseddau Casineb am gyngor ar bwy i adrodd yn ôl ym maes troseddau casineb

**Gorfodi/Goruchwylio**

- I annog yng Nghanllawiau statudol y Cod Ymddygiad wrth Deithio bod dysgwyr o Flynyddoedd 11, 12 neu 13, yn gweithredu fel swyddogion bysiau i arolygu ar deithiau bws gyda chylch gwaith i atal bwlio; helpu'r rhai sy'n cael eu bwlio; cadw cofnod o ymddygiad; a chofnodi ymddygiad gwael i benaethiaid, cynghorau ysgol neu benaethiaid
- Annog yng nghanllawiau statudol y Cod Ymddygiad wrth Deithio bod awdurdodau lleol ac/neu gwmnïau bysiau yn defnyddio teledu cylch cyfyng fel dull o gofnodi tystiolaeth (mewn cydweithrediad â dysgwyr neu rieni)

**Gwobrwyo**

- Argymell yng nghanllawiau statudol y Cod Ymddygiad wrth Deithio i ysgolion ystyried gwobrau realistig a chymesur ar gyfer y dysgwyr hynny sy'n ymddwyn yn dda ar drafnidiaeth ysgol gydag ysgolion yn defnyddio eu disgresiwn yn y mater hwn

**Ymwybyddiaeth**

- Lansio ymgyrch gyfathrebu i godi ymwybyddiaeth o'r Cod Ymddygiad wrth Deithio ymhlith dysgwyr